# Uned 27: Cyflawni Arferion Gweithdy Tir Arbenigol

**Côd yr Uned:** **J/600/9635**

**FfCC Lefel 3:** **BTEC Cenedlaethol**

**Gwerth o ran credydau:** **10**

**Oriau dysgu dan arweiniad:** **60**

## Nod a diben

Nod yr uned hon yw cyflwyno i'r dysgwyr sgiliau a gwybodaeth gweithdy tir arbenigol a sut gellir eu defnyddio yn ymarferol. Mae wedi'i dylunio ar gyfer dysgwyr mewn canolfannau sydd am symud ymlaen i'r sector neu i addysg bellach/uwch.

## Cyflwyniad i'r uned

Oherwydd costau bythol gynyddol prynu, cynnal a chadw a defnyddio peiriannau ac offer tir, mae angen cynyddol am ddarparu safon uchel o gynnal a chadw ac atgyweirio i sicrhau y cyflawnir tasgau yn brydlon, yn unol â chostau y cytunwyd arnynt ac yn unol â gofynion deddfwriaethol cyfredol ac i fodloni cyfyngiadau amgylcheddol.

Mae'r uned hon yn canolbwyntio ar ddatblygu gwybodaeth dysgwyr a'u gallu i ddeall yr angen am offer a phrosesau arbenigol i ganiatáu cyflawni tasgau cynnal a chadw, atgyweirio a gwneuthurio yn ddiogel, yn gywir ac yn effeithlon. Bydd gweithgareddau gweithdy ymarferol yn cadarnhau sgiliau, gweithdrefnau gweithdy diogel a dethol offer a phrosesau i ganiatáu i'r dysgwyr ddeall disgwyliadau gwaith.

Bydd profiad o weithrediadau gweithdy yn galluogi'r dysgwyr i nodi'r angen am offer a phrosesau arbenigol, ynghyd â phwysigrwydd cynnal a chadw offer, cludo a storio. Trwy gydol yr uned bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i asesu gweithdrefnau gweithio diogel a chyfreithlon a gweithredu offer a chyfarpar yn ddiogel ac yn effeithlon o ran gofynion deddfwriaethol cyfredol.

## Deilliannau dysgu

**Wedi cwblhau'r uned hon dylai'r dysgwr:**

1 Allu nodi a dethol offer, cyfarpar a phrosesau arbenigol

2 Gallu defnyddio offer a chyfarpar arbenigol mewn modd diogel a chymwys

3 Gallu cyflawni tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol

4 Deall yr angen am ofalu am a storio offer, cyfarpar a deunyddiau'n ddiogel.

# Cynnwys yr uned

## 1 Gallu nodi a dethol offer, cyfarpar a phrosesau arbenigol

*Offer a chyfarpar mesur:* tapiau a deiau; agorellau; offer hogi; micromedrau; medryddion vernier; medryddion tyllu

*Offer pŵer:* offer aer; offer trydan; pecynnau batri a gwefrwyr; llifanwyr falfiau; dad-gabolwyr tyllu

*Cyfarpar profi:* profwyr cywasgiad, profwyr gwasgedd, dadansoddwyr nwyon gwacáu, mesuryddion profion trydanol, amlfesuryddion

*Cyfarpar:* arc metel â llaw (MMA); nwy anadweithiol â llaw (MIG); nwy anadweithiol twngsten (TIG); cyfarpar weldio nwy adweithiol metel (MAG); torri plasma; cylchlifau a llifau torri i ffwrdd; ee gweisg, roliau, ffolderau, turnau, llifanwyr arwyneb, peiriannau llifanu

*Prosesau:* ee chwistrellu paent, paentio electrostateg, galfanu, electroplatio, caenu powdr.

## 2 Gallu defnyddio offer a chyfarpar arbenigol mewn modd diogel a chymwys

*Arferion gweithio diogel:* materion iechyd a diogelwch; Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith; asesiadau risg; Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER); Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 1999 (COSHH); Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi 1998 (LOLER); cyfarpar amddiffyn personol (PPE); alldynnu mygdarthau; gwaredu gwastraff yn briodol; codi a thrin yn ddiogel

*Defnyddio offer a chyfarpar:* dethol yn gywir; addas at y diben; defnydd diogel; defnyddio cyfarwyddiadau gweithgynhyrchwyr a data; dull defnyddio cywir; cydrannau amnewid; graddnodi; profi

## 3 Gallu cyflawni tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol

*Tasgau arbenigol:* atgyweirio unedau pŵer a thrawsyrru; gweithdrefnau gwneuthurio ac uno; ailorffen; amserlenni cynnal a chadw; cofnodion gwaith; gweithdrefnau profi

## 4 Deall yr angen am ofalu am a storio offer, cyfarpar a deunyddiau'n ddiogel

*Gofalu a storio cywir:* systemau storio; cludo cyfarpar; glanhau; iro; amddiffyn wrth storio; hogi; amnewid darnau traul; graddnodi cyfnodol; tymheredd a lleithder storio; storio deunyddiau; storio a gwaredu deunydd gwastraff; trin a storio cemegion yn ddiogel.

## Meini prawf asesu a graddio

Er mwyn llwyddo yn yr uned hon, mae angen i'r dystiolaeth a gaiff ei chyflwyno gan y dysgwyr i'w hasesu arddangos eu bod yn gallu bodloni'r holl ddeilliannau dysgu ar gyfer yr uned. Mae'r meini prawf asesu ar gyfer gradd llwyddo yn disgrifio lefel y cyflawniad sy'n angenrheidiol i lwyddo yn yr uned hon.

| **Meini prawf asesu a graddio** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** | |
| Ll1 | nodi a dethol offer, cyfarpar uno a thorri, ffasneri a gorffeniadau arbenigol priodol ar gyfer sefyllfaoedd penodol [MC] | T1 | gosod offer a chyfarpar arbenigol yn ddiogel | Rh1 | gwerthuso prosesau yn ymwneud â gosod a pharatoi offer a chyfarpar uno a thorri angenrheidiol i gwblhau tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol |
| Ll2 | disgrifio swyddogaeth offer arbenigol, cyfarpar uno a thorri, ffasneri a gorffeniadau | | | | |
| Ll3 | defnyddio offer arbenigol penodol, cyfarpar uno a thorri, offer profi, ffasneri a gorffeniadau yn ddiogel ar gyfer sefyllfaoedd penodol [HR, CE] | T2 | cymharu'r defnydd o offer, cyfarpar a phrosesau arbenigol penodol ar gyfer sefyllfaoedd penodol | | |
| Ll4 | paratoi a gosod cydrannau amnewid yn ddiogel mewn offer, cyfarpar uno a thorri arbenigol penodol | | | | |
| Ll5 | defnyddio arweiniad gweithgynhyrchwyr yn ddiogel wrth gyflawni tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol ar gyfarpar tir penodol [GT] | T2 | trafod yr angen am offer a chyfarpar arbenigol i gyflawni ystod o dasgau a phrosesau a nodwyd | | |
| Ll6 | nodi'r angen am dasgau cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol ar gyfarpar tir penodol | | | | |

| Meini prawf asesu a graddio | | |
|---|---|---|
| **I gyflawni gradd llwyddo rhaid i'r dystiolaeth ddangos bod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd teilyngdod rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo, fod y dysgwr yn gallu:** | **I gyflawni gradd rhagoriaeth rhaid i'r dystiolaeth ddangos, yn ogystal â meini prawf llwyddo a theilyngdod, fod y dysgwr yn gallu:** |
| Ll7 egluro'r gofal a storio ar gyfer offer, cyfarpar a deunyddiau arbenigol penodol [YA] | T4 trafod pwysigrwydd gofalu a chynnal a chadw offer a chyfarpar arbenigol yn gywir. | |
| Ll8 trafod pwysigrwydd gofalu a chynnal a chadw offer a chyfarpar arbenigol yn gywir. | | |

**SPDM:** Mae'r crynodeb hwn, lle y bo'n berthnasol, yn cyfeirio yn y meini prawf llwyddo, yn y cromfachau sgwâr, at elfennau o'r sgiliau personol, dysgu a meddwl. Mae'n nodi'r cyfleoedd i ddysgwyr arddangos eu bod wedi defnyddio elfennau'r sgiliau y cyfeirir atynt yn effeithiol.

| **Allwedd** | |
|---|---|
| | YA - ymholwyr annibynnol |
| | MC - meddylwyr creadigol |
| | DM - dysgwyr myfyriol |
| | GT - gweithwyr tîm |
| | HR - hunan-reolwyr |
| | CE - cyfranogwyr effeithiol |

 © Pearson Education Limited 2019

# Arweiniad hanfodol i diwtoriaid

## Cyflwyno

Wrth gyflwyno'r uned hon bydd angen asesiadau ymarferol ac ysgrifenedig, ymweliadau â gweithdai cynnal a chadw diwydiannol addas a bydd yn cysylltu â lleoliadau profiad gwaith.

Cyn cyflawni ymarfer cyfarwyddiadau a sgiliau ar gyfer yr uned hon, disgwylir bod y dysgwyr eisoes wedi datblygu cryn nifer o sgiliau gweithdy sylfaenol a'u bod yn hyfedr wrth gwblhau tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio arferol. Mae'r uned hon wedi'i dylunio i adeiladu ar y profiadau hynny a chyflwyno lefel uwch o gyfarpar, offer a phrosesau technegol sy'n dod yn norm mewn arferion gweithdy tir.

Lle y bo'n bosibl dylai'r tiwtoriaid integreiddio'r meini prawf asesu i strategaethau cyflwyno er mwyn ysgogi ac ennyn brwdfrydedd y dysgwyr a galluogi cyflawni tasgau fel rhai sydd 'heb eu hefelychu', ac annog dysgwyr i weithio at safon uchel bob tro.

Mae'n bwysig, oherwydd lefel uchel y peryglon a'r risgiau posib wrth weithio mewn amgylchedd gweithdy cynnal a chadw, bod y dysgwyr yn cael eu goruchwylio'n agos, a'u hannog i ddilyn arferion gweithio diogel bob amser ac asesu peryglon a risgiau cyn cyflawni unrhyw dasgau ymarferol.

Mae deilliant dysgu 1 yn trafod yr offer llaw, y cyfarpar mesur a'r prosesau uno lefel uwch. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o ba offer a chyfarpar sydd ar gael i gyflawni gweithdrefnau peiriannau ac atgyweirio a gwneuthurio cydrannau at lefel uchel o gywirdeb a goddefiad.

Mae deilliant dysgu 2 yn gofyn bod y dysgwyr yn datblygu sgiliau wrth ddethol a defnyddio offer a chyfarpar arbenigol, a'u dealltwriaeth ohonynt. Bydd y dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o'r angen am osod cychwynnol, graddnodi a gweithdrefnau sefydlu cyn defnyddio cyfarpar a phrosesau cyfredol neu newydd.

Yn neilliant dysgu 3 bydd y dysgwyr yn datblygu eu sgiliau cyfredol i'w galluogi i gyflawni tasgau arbenigol ar gyfarpar tir yn ôl gweithdrefnau, mesuriadau a goddefiadau'r gwneuthurwyr. Bydd y dysgwyr yn cael eu hannog i ddethol offer, cyfarpar a phrosesau arbenigol priodol i'w cyflawni'n ddiogel, yn gywir ac yn effeithlon. Lle mae un math neu fwy o gyfarpar neu broses yn dderbyniol, bydd y dysgwyr yn gallu gwerthuso dewisiadau amgen a chyfiawnhau eu dewisiadau.

Mae deilliant dysgu 4 yn trafod pwysigrwydd cynnal a chadw a gofalu am offer a chyfarpar arbenigol. Bydd y dysgwyr yn nodi'r angen am ailaddasu offer arbenigol er mwyn cywirdeb, amnewid cydrannau sydd wedi treulio a diogelu defnyddwyr. Bydd y dysgwyr hefyd yn datblygu dealltwriaeth o storio offer a chyfarpar, diogeledd a chludo diogel er mwyn sicrhau bod yr offer a'r cyfarpar ar gael ac yn gallu cael eu defnyddio ar gyfer tasgau'r dyfodol. Dylai'r dysgwyr hefyd ddeall canlyniadau gofal a chynnal a chadw anghywir.

## Cynllun dysgu amlinellol

Mae'r cynllun dysgu amlinellol wedi cael ei gynnwys yn yr uned hon fel arweiniad a gellir ei ddefnyddio ar y cyd â'r rhaglen o aseiniadau a awgrymir.

Mae'r cynllun dysgu amlinellol yn rhoi **syniad o faint o waith dysgu fyddai'n angenrheidiol i ddysgwr arferol** gyflawni'r deilliannau dysgu. Mae'n **ddangosol ac yn un ffordd o gyflawni'r gwerth o ran credydau.**

Dylai'r amser dysgu drafod yr holl ddysgu (gan gynnwys asesu) sy'n berthnasol i'r deilliannau dysgu, ni waeth ble, pryd na sut y digwyddodd y dysgu.

| Pwnc ac aseiniadau/gweithgareddau/asesiadau a awgrymir |
| --- |
| Cyflwyniad a throsolwg o'r uned. |
| **Aseiniad 1 Dethol Offer Arbenigol a'u Swyddogaeth** (Ll1, Ll2, T1, Rh1)<br>Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad. |
| Trafod ystod o offer arbenigol, nodi enghreifftiau cysylltiedig â thasgau. |
| Trafod cyfarpar mesur arbenigol, eu nodi a'u cysylltu â thasgau. |
| Trafod prosesau arbenigol (uno a gorffen) a'u cysylltu â thasgau |
| **Aseiniad 2 Defnyddio Offer a Chyfarpar Arbenigol** (Ll3, Ll4, T2)<br>Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad |
| Cyflawni amrywiaeth o dasgau offer a phrosesu arbenigol er mwyn i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â'r cyfarpar |
| Ymweliadau ag eiddo diwydiannol i weld peiriant arbenigol yn cael ei ailadeiladu, archwilio uned drawsyrru. |
| Ymweliadau ag eiddo diwydiannol i weld prosesau creu a gwneuthurio arbenigol. |
| **Aseiniad 3 Tasgau a Phrosesau Atgyweirio Arbenigol** (Ll5, Ll6, T3)<br>Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad. |
| Cyflawni prosesau cynnal a chadw, ailadeiladu ac archwilio arbenigol gan ddefnyddio offer, cyfarpar a phrosesau arbenigol. |
| Adolygu aseiniadau 1 a 2 |
| **Aseiniad 4 Gofalu am Offer a'u Storio** (Ll7, Ll8, T4)<br>Y tiwtor yn cyflwyno brîff yr aseiniad. |
| Trafod gofynion cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar |
| Cyflawni gweithdrefnau cynnal a chadw a storio offer a chyfarpar. |
| Adolygu aseiniadau 3 a 4 |
| Adolygu'r uned. |

## Asesu

Ar gyfer Ll1 ac Ll2, rhaid i'r dysgwyr ddethol a disgrifio'r eitemau o offer, cyfarpar uno a thorri, ffasneri a gorffeniadau arbenigol ar gyfer sefyllfaoedd penodol. Rhaid i'r sefyllfaoedd gynnwys prosesau atgyweirio, gwneuthurio, cynnal a chadw, uno a ffasno. Gellid cymryd y dystiolaeth o enghreifftiau neu ddarluniadau a gyflwynir yn ymarferol. Os asesir yn llafar, rhaid i'r tiwtor gofnodi tystiolaeth mewn fformat addas er mwyn cyfiawnhau cyflawniad.

Ar gyfer Ll3 ac Ll4, mae angen i'r dysgwyr arddangos defnydd diogel o ystod o offer a chyfarpar arbenigol a gosod cydrannau amnewid. Ni fydd angen arddangos yr holl offer a chyfarpar a restrwyd ar gyfer deilliant dysgu 1 ond dylid trafod o leiaf ddau offeryn mesur, dwy dechneg uno a dwy broses ffasno arbenigol.

Ar gyfer Ll5 ac Ll6, bydd gofyn bod y dysgwyr yn cyflawni ystod o dasgau cynnal a chadw, atgyweirio a gwneuthurio a nodi'r angen am y tasgau hyn. Dylai un dasg o bob maes uchod roi cynrychiolaeth deg o ofynion tasg arbenigol. Dylai'r tiwtor drafod gyda'r dysgwyr dasgau addas i gynnwys y meini prawf a chytuno ar y prosesau i'w defnyddio. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer Ll3, Ll4, Ll5 ac Ll6 fod yn arsylwi ymarferol ac yn bortffolio yn cofnodi'r holl dasgau a gyflawnwyd, y prosesau a ddefnyddiwyd a chynhyrchu cerdyn gwaith. Gellir defnyddio tystiolaeth ffotograffig i wella cynnwys portffolio.

Ar gyfer Ll7 ac Ll8, mae disgwyl i'r dysgwyr ddarparu gwybodaeth am gynnal a chadw a gofalu am ystod o offer a chyfarpar arbenigol. Gellir defnyddio tystiolaeth lafar ar gyfer hyn, ond rhaid i'r tiwtor gofnodi'r dystiolaeth mewn fformat priodol.

Ar gyfer T1, disgwylir i'r dysgwyr osod offer a chyfarpar arbenigol yn ddiogel, gan gynnwys gosod a graddnodi lle y bo'n angenrheidiol. Yn dystiolaeth bydd arsylwi uniongyrchol ar weithdrefnau, a gofnodwyd mewn fformat priodol. Bydd yr ystod o gyfarpar yn cynnwys offer mesur a chyfarpar uno a thorri.

Ar gyfer T2 a T3, bydd y dysgwyr yn rhoi gwybodaeth am gymharu offer a chyfarpar arbenigol i gyflawni ystod o dasgau a phrosesau a nodwyd.  Dylid nodi anghenion o amserlenni gwaith a amlinellir yn llawlyfrau gweithdy'r gweithgynhyrchwyr neu o daflenni cynllunio wrth greu neu uno cydrannau. Gallai cyflwyniad neu dystiolaeth lafar yn ystod gweithgareddau ymarferol gael eu cynnwys fel rhan o'r dystiolaeth portffolio ar gyfer Ll3.

Ar gyfer T4, bydd y dysgwyr yn trafod pwysigrwydd cynnal a chadw a gofalu am offer a chyfarpar arbenigol yn gywir. Gellid ychwanegu tystiolaeth ysgrifenedig yn egluro pwysigrwydd gofal a chynnal a chadw cywir at y dystiolaeth sydd eisoes wedi'i chynnwys yn y portffolio.

Ar gyfer Rh1, rhaid i'r dysgwyr werthuso'r prosesau sy'n rhan o osod offer a chyfarpar ar gyfer tasgau cynnal a chadw ac atgyweirio. Gallai'r dystiolaeth fod ar ffurf cyflwyniad neu adroddiad gweithdy.

### Rhaglen aseiniadau a awgrymir

Mae'r tabl sy'n dilyn yn dangos rhaglen o aseiniadau a awgrymir sy'n cwmpasu'r meini prawf llwyddo, teilyngdod a rhagoriaeth yn y grid graddio. Arweiniad yw hwn ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau Edexcel i gyd-fynd ag anghenion ac adnoddau lleol.

| **Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu** | **Teitl yr aseiniad** | **Senario** | **Dull asesu** |
|---|---|---|---|
| Ll1, Ll2, T1, Rh1 | Dethol Offer Arbenigol a'u Swyddogaeth | Mae gweithdy cynnal a chadw ac atgyweirio tir newydd ei sefydlu am gael ystod o offer a chyfarpar arbenigol fel bod modd cyflawni prosesau cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol. Bydd angen nodi ystod o gyfarpar angenrheidiol ac egluro'u diben | Arsylwi ymarferol ac asesu.<br>Adroddiad gweithdy. |
| Ll3, Ll4, T2 | Defnyddio Offer a Chyfarpar Arbenigol | Sicrhau bod offer a chyfarpar yn addas at y diben, yn ddiogel ac yn gywir. Profi offer a chyfarpar i'w defnyddio mewn amgylchiadau a efelychir a'u paratoi yn ôl yr angen. Gwerthuso gosodiad a phrosesau paratoi. | Arsylwadau ymarferol.<br>Trafodaethau llafar.<br>Gwerthusiadau ysgrifenedig. |
| Ll5, Ll6, T3 | Tasgau a Phrosesau Atgyweirio Arbenigol | Cyflawni tasgau cynnal a chadw, atgyweirio a gwneuthurio arbenigol gan ddefnyddio offer, cyfarpar a phrosesau arbenigol. | Portffolio o dystiolaeth yn trafod tasgau ymarferol.<br>Tystiolaeth ysgrifenedig yn cefnogi'r dethol a'r angen am offer a phrosesau arbenigol.<br>Cymariaethau ysgrifenedig o'r offer a'r prosesau sydd ar gael i gyflawni tasgau. |
| Ll7, Ll8, T4 | Gofalu am Offer a'u Storio | Nodi cynnal a chadw cyn storio a chydrannau i'w hamnewid ar gyfer offer a chyfarpar arbenigol a ddewiswyd. Awgrymu datrysiadau cludo a storio diogel i sicrhau diogeledd a chyflwr. | Adroddiad ysgrifenedig am ofynion cynnal a chadw ar gyfer ystod o offer a chyfarpar arbenigol a nodwyd. |

## Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, unedau BTEC eraill, cymwysterau BTEC eraill ac unedau a chymwysterau perthnasol eraill

Mae'r uned hon yn ffurfio rhan o gyfres sector tir BTEC. Mae gan yr uned hon gysylltiadau penodol â:

| **Lefel 2** |
|---|
| Cyflwyniad i Ymarfer Gweithdy Tir |
| Lefel 3 |
| Cyflawni Ymarfer Gweithdy Tir |

## Adnoddau hanfodol

Mae angen cyfleuster gweithdy cynnal a chadw diogel, llawn cyfarpar gan gynnwys cyfleusterau storio addas ar gyfer offer a chyfarpar arbenigol, fel bod modd cyflawni ystod o brosesau gwaith ar beiriannau a chyfarpar tir.

Bydd angen ystod o offer arbenigol, cyfarpar proses gwneuthurio ac uno a ddefnyddir yn gyffredin ar gyfarpar tir.

Bydd ar y dysgwyr angen mynediad i ddetholiad o unedau pŵer a pheiriannau tir sy'n galw am gynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol.

## Ymgysylltu â chyflogwyr a chyd-destunau galwedigaethol

Dylid annog canolfannau i ddatblygu cysylltiadau gyda chontractwyr, delwyr a ffermwyr i ganiatáu ymweliadau safle er mwyn arsylwi gweithdrefnau cynnal a chadw ac atgyweirio arbenigol. Dylai'r dysgwyr gael eu hannog i gynnal cysylltiadau gyda busnesau addas er mwyn cael profiad gwaith ac ymarfer tasgau arbenigol na fyddent o bosib yn codi yn eu hamgylchedd dysgu.

Bydd angen i'r dysgwyr gael mynediad i wefannau gweithgynhyrchwyr a llawlyfrau atgyweirio gweithdy i ymchwilio i weithdrefnau a phrosesau tasgau.

## Darllen dangosol i ddysgwyr

### Gwerslyfrau

Bell B – *Farm Workshop, 2il Argraffiad* (Farming Press, 1992) ISBN 0852362374

Farmers Weekly – *Farm Workshop and Maintenance* (HarperCollins Publishers 1984) ISBN 0246120193

Pearce A – *Farm Welding, 2il Argraffiad* (Old Pond Publishing Press, 2006) ISBN1905523300

Pearce A – *Farm and Workshop Welding* (Old Pond Publishing Press, 2007) ISBN 1905523300

### Cyfnodolion

*Profi International*

*Farmers Weekly*

*Farm Ideas*

### Gwefannau

| | |
|---|---|
| www.hse.gov.uk | Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch |
| www.twi.co.uk | Y Sefydliad Weldio |

## Cyflwyno sgiliau personol, dysgu a meddwl (SPDM)

Mae'r tabl hwn yn nodi'r cyfleoedd SPDM a gafodd eu cynnwys ym meini prawf asesu'r uned hon:

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | esbonio sut i ofalu am offer a chyfarpar a'u storio |
| **Meddylwyr creadigol** | nodi a dethol offer a phrosesau priodol |
| **Gweithwyr tîm** | defnyddio gwybodaeth arweiniol gweithgynhyrchwyr |
| **Hunan-reolwyr** | defnyddio offer a chyfarpar yn ddiogel |
| **Cyfranogwyr effeithiol** | cyflawni tasgau ymarferol. |

Er y nodir cyfleoedd SPDM yn yr uned hon fel rhan annatod o'r meini prawf asesu, ceir cyfleoedd eraill i ddatblygu amrediad o SPDM trwy fynd ati i ddysgu ac addysgu mewn amrywiol ffyrdd.

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **Ymholwyr annibynnol** | holi am gyfleoedd profiad gwaith |
| **Meddylwyr creadigol** | penderfynu ar brosesau gwaith priodol |
| **Gweithwyr tîm** | trefnu ymweliadau safle |

## Sgiliau swyddogaethol – Lefel 2

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn... |
|---|---|
| **TGCh – Defnyddio systemau TGCh** | |
| Dethol, rhyngweithio â systemau TGCh a'u defnyddio'n annibynnol ar gyfer tasg gymhleth i fodloni anghenion amrywiol | ymchwilio i argymhellion gweithdrefnau cynnal a chadw ac atgyweirio gweithgynhyrchwyr<br>ymchwilio i gyflenwyr offer arbenigol a manylebau offer |
| Defnyddio TGCh i gynllunio gwaith yn effeithiol a gwerthuso effeithiolrwydd y system TGCh a ddefnyddiwyd | |
| Rheoli storio gwybodaeth er mwyn galluogi adalw effeithlon | cynhyrchu portffolio o waith ymarferol |
| Dilyn arferion diogelwch a diogeledd a deall yr angen amdanynt | |
| Datrys problemau | |
| **TGCh – Canfod a dethol gwybodaeth** | |
| Dethol a defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth yn annibynnol ar gyfer tasg gymhleth | dilyn gweithdrefnau cynnal a chadw ac atgyweirio a argymhellir gan y gweithgynhyrchwyr |
| Cael mynediad i wybodaeth seiliedig ar TGCh, chwilio amdani, ei dewis a'i defnyddio- a gwerthuso ei haddasrwydd at y diben | |
| **TGCh – Datblygu, cyflwyno a chyfathrebu gwybodaeth** | |
| Mewnbynnu, datblygu a fformadu gwybodaeth yn annibynnol i gyd-fynd â'i hystyr a'i diben gan gynnwys:<br>• testun a thablau<br>• delweddau<br>• rhifau<br>• cofnodion | cofnodi goddefiadau traul peiriannau a chydrannau |
| Dwyn ynghyd wybodaeth i gyd-fynd â'r cynnwys a'r diben | |
| Cyflwyno gwybodaeth mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r diben a'r gynulleidfa | |
| Gwerthuso'r detholiad a'r defnydd o offer TGCh a'r cyfleusterau a ddefnyddiwyd i gyflwyno gwybodaeth | |

| Sgil | Pan fydd y dysgwyr yn… |
|---|---|
| Dethol a defnyddio TGCh i gyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn ddiogel, yn gyfrifol ac yn effeithiol gan gynnwys storio negeseuon a rhestrau cyswllt | |
| **Mathemateg** | |
| Deall problemau arferol ac anarferol mewn amrediad eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Nodi'r sefyllfa neu'r broblem a'r dulliau mathemategol angenrheidiol i'w datrys | defnyddio cyfarpar mesur i bennu traul cydrannau |
| Dethol ystod o sgiliau a'u cymhwyso i ganfod datrysiadau | nodi a yw traul cydrannau o fewn goddefiant derbyniol gweithgynhyrchwyr |
| Defnyddio gweithdrefnau gwirio priodol a gwerthuso eu heffeithiolrwydd ar bob cam | |
| Dehongli a chyfathrebu datrysiadau i broblemau ymarferol mewn cyd-destunau a sefyllfaoedd cyfarwydd ac anghyfarwydd | |
| Llunio casgliadau a darparu cyfiawnhad mathemategol | |
| **Iaith** | |
| Siarad a gwrando - gwneud amrywiaeth o gyfraniadau i drafodaethau a gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn ystod eang o gyd-destunau | |
| Darllen - cymharu, dethol, darllen a deall testunau a'u defnyddio i gywain gwybodaeth, syniadau, dadleuon a safbwyntiau | |
| Ysgrifennu - ysgrifennu dogfennau, gan gynnwys darnau ysgrifenedig estynedig, cyfathrebu gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau, yn effeithiol ac yn berswadiol | cynhyrchu tystiolaeth ysgrifenedig i gefnogi portffolio dogfennaeth yn nodi tasgau a gweithdrefnau gwaith ymarferol. |